



# Polisi CCTV

Dyddiad Cymeradwyo a Dyddiad Adolygu  
Date Approved and Review Date

*Gweler Cynllun Adolygu Polisiau  
See Policy Review Timetable*

# **POLISI, COD YMARFER A LLAWLYFR GWEITHDREFNOL TELEDU CYLCH CYFYNG**

## **Polisi a Chod Ymarfer**

Bwriad y polisi a'r Cod Ymarfer hwn yw:

- a) cynyddu diogelwch personol myfyrwyr, staff ac ymwelwyr, a lleihau ofn troseddau.
- b) diogelu adeiladau'r ysgol a'u hasedau.
- c) cefnogi'r Heddlu mewn ymgais i atal a chanfod troseddau.
- d) cynorthwyo i nodi, dal ac efallai erlyn troseddwyr.
- e) amddiffyn aelodau o'r cyhoedd ac eiddo preifat, a
- f) chynorthwyo i reoli'r ysgol

Mae Teledu Cylch Cyfyng yn ffurfio rhan annatod o system ddiogelwch yr ysgol.

Mae'r ysgol yn ymwybodol o'r defnydd cywir o Deledu Cylch Cyfyng a'r prif oblygiadau ar gyfer defnyddio systemau Teledu Cylch Cyfyng dan y RhDDC 2018.

Gosodwyd y system Teledu Cylch Cyfyng yn yr ysgol er budd holl ddefnyddwyr safle'r ysgol – staff, disgyblion ac unigolion eraill sy'n ymweld â'r ysgol at ddibenion dilys.

Ei fwriad yw gwella diogelwch pob defnyddiwr a gweithredu fel ataliad i unigolion a all fod yn dymuno/bwriadu achosi difrod i adeiladau'r ysgol ac i'w defnyddwyr. Mae gweithgareddau o'r fath yn golygu costau ariannol trwm i'r ysgol ac mewn rhai achosion, gallant hefyd arwain at risgiau/perygion lechyd a Diogelwch i ddefnyddwyr dilys yr ysgol.

Mae'r system hefyd yn rhoi ffynhonnell o ddelweddau cofnodedig i'r ysgol o'r ardaloedd hynny lle mae'r camerâu wedi eu lleoli, y gellir ei defnyddio i hysbysu ymchwiliadau i weithgareddau amhriodol, fel fandaliaeth, a all ddigwydd ar safle'r ysgol.

Rheolir y system gan Sodexo a gall uwch arweinwyr yr ysgol a staff swyddfa gael mynediad i'r system yn ystod y diwrnod ysgol.

## **POLISI CAMERA TELEDU CYLCH CYFYNG**

Defnyddir CCTV yn yr ysgol at bwrpas cynnal diogelwch y safle a phawb sy'n gysylltiedig â'r ysgol, atal trosedd ac ymchwilio i droseddau.

Mae system CCTV yr ysgol yn cynnwys 6 camera wedi'u lleoli mewn safleoedd amlwg y tu allan i adeiladau'r ysgol ac un ym mhrif dderbynfa'r ysgol.

Mae'r holl camerâu sydd wedi'u lleoli ar safle'r ysgol yn gwbl weladwy ac wedi'u lleoli at y dibenion a nodi uchod.

Mae camerâu sefydlog wedi'u lleoli mewn modd sy'n sicrhau nad ydynt yn ffocysu ar gartrefi preifat, gerddi ac ardaloedd eraill o eiddo preifat.

Cynhaliwyd asesiad effaith ar breifatrwydd ar safle pob camera gan Sodexo (rheoli safle) a chyda chymorth contractwyr achrededig sy'n gyfrifol am gynnal yr offer a'r systemau.

Arddangosir arwyddion o gwmpas yr ysgol yn nodi'r ffaith bod CCTV yn cael ei ddefnyddio.

Yn unol â gofynion RhDDC 2018, mae system CCTV yr ysgol wedi'i chofrestru gyda'r Swyddfa Comisiynydd Gwybodaeth - Pwrpas 6 - "yn cynnwys y defnydd o deledu cylch cyfyng i fonitro a chasglu seiniau a/neu ddelweddau gweledol i ddibenion cynnal diogelwch y safle, a rhwystro a chanfod troseddau."

Mae'r system o dan gcontract cynnal a chadw a gynlluniwyd a chedwir log o bob diffyg ac ymweliadau cynnal a chadw.

Mae defnydd o'r system, a mynediad at ddelweddau fideo ar y system, wedi'i gyfyngu i nifer bychan o staff yn yr ysgol a awdurdodwyd i wneud hynny yn uniongyrchol gan Reolwyr Sodexo a'r Pennaeth

Rhaid i bob mynediad at ddelweddau fideo gan bersonau/bartïon, heblaw am rai a awdurdodwyd gan y Pennaeth o fewn yr ysgol, gael eu sancsiynu/awdurdodi gan y Pennaeth.

*Gall unrhyw aelod staff sy'n gwneud unrhyw fath o ddefnydd anawdurdodedig o'r system fod yn destun Disgyblu.*

Bydd staff ysgol a awdurdodwyd i ddefnyddio/gweithredu/gael mynediad at y system yn cadw'n gaeth at y gweithdrefnau Gweithredu fel y'i nodir yn Llawlyfr Gweithdrefnau Sodexo.

Mae'r llawlyfr hwn yn ddogfen hynod gyfrinachol a ddosberthir dim ond i'r staff hynny a awdurdodwyd i ddefnyddio'r system CCTV. Mae pob aelod staff a awdurdodwyd i weithredu'r system wedi derbyn hyfforddiant ac yn gwbl ymwybodol o'r sail gyfreithiol ar gyfer gweithredu'r cynllun. Adolygir y Cod Ymarfer hwn yn rheolaidd.

- Mae'r system CCTV yn eiddo i Sodexo ac yn cael ei gweithredu gan y cwmni hwnnw.
- Ni fydd ardal y dderbynfa dan arolygaeth staff ysgol y tu allan i oriau ysgol.
- Gellir cynnal cyfarfodydd cyswllt gyda'r Heddlu a chyrrff eraill.
- Bydd Sodexo yn mynegeo a storio'n DVD/CDau a recordiwyd mewn modd priodol, gan eu cadw am y cyfnod angenrheidiol yn unig a'u dinistrio'n ddiogel ar ôl gwneud defnydd priodol ohonynt.
- Dim ond personél awdurdodedig a'r Heddlu a gaiff gwyllo'r DVD/CDau.
- Bydd DVD/CDau sydd eu hangen fel tystiolaeth yn cael eu cofnodi, eu hardystio a'u pecynnu'n briodol cyn i'r copïau gael eu rhyddhau i'r Heddlu.
- Ni fydd DVD/CDau ar gael i'r cyfryngau at ddibenion masnachol neu adloniant, ond er

mwyn cefnogi canfod troseddau dan gyfarwyddyd yr Heddlu.

Bydd DVD/CDau yn cael eu gwaredu'n ddiogel drwy garpio.

Os yw pynciau data angen copi o unrhyw ddata a gofnodwyd, rhaid gwneud cais ysgrifenedig ffurfiol i'r Pennaeth.

Bydd y Pennaeth, neu uwch athro sy'n gweithredu ar ei r/rhan, a chynrychiolydd Sodexo yn cynnal yr ymchwiliad cychwynnol i unrhyw doriadau o'r cod hwn.

Rhoddir gwybod i'r Pennaeth a chynrychiolydd Sodexo am doriadau o'r cod hwn ac unrhyw gamau angenrheidiol.

Os bydd unrhyw gwynion yn codi parthed gweithrediad yr ysgol o CCTV, dylid mynegi'r rhain ar ffurf ysgrifenedig a'u cyfeirio at y Pennaeth.

W6885298 Rhif Cofrestru Diogelu Data ICO (o fis Mehefin 2018)

Dyddiad Adnewyddu 01/07/19

Ysgol Uwchradd Dyffryn Conwy

Llanrwst

LL26 0SD